Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

CYLCHLYTHYR

Y Comisiynydd

Bwletin Arbennig

Cyfle i ddweud eich dweud ar sut gallwn ni wneud Cymru'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru am i Gymru fod y lle gorau yn y byd i dyfu'n hŷn ynddo, ac mae wrthi'n pennu'r gwaith y bydd yn ei wneud dros y tair blynedd nesaf i wella bywydau pobl hŷn.

Ers iddi ddechrau yn y swydd, mae'r Comisiynydd wedi teithio ar hyd a lled Cymru yn cwrdd ac yn siarad â phobl hŷn a sefydliadau i wrando ar beth fyddai'n gwneud Cymru'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hyn ynddo.

Mae hyn wedi helpu'r Comisiynydd i nodi tri phrif flaenoriaeth tymor hir i Gymru. Bydd yn cyflawni ystod eang o waith ar ran pobl hŷn yn erbyn y blaenoriaethau hyn:

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu heneiddio'n dda
- Rhoi diwedd ar oedraniaeth a gwahaniaethu
- Rhoi diwedd ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru

Mae'r Comisiynydd yn awyddus i safbwyntiau a phrofiadau cynifer â phosib o bobl hŷn a rhanddeiliaid ddylanwadu ar ei gwaith a byddai'n croesawu eich barn ar beth dylai ganolbwyntio arno dan y meysydd blaenoriaeth hyn, yn arbennig y newidiadau rydych chi am eu gweld a'ch syniadau o ran sut mae cyflawni'r newidiadau hyn.

Yn eich ymateb gallech dynnu sylw at rywbeth sy'n peri pryder i chi, neu rannu esiampl o rywbeth cadarnhaol sy'n gweithio'n dda a fyddai'n gallu cael ei wneud mewn rhannau eraill o Gymru hefyd.

Mae'r Comisiynydd yn arbennig o awyddus i ganolbwyntio ar waith a fydd yn gwella ansawdd bywyd y bobl hŷn mwyaf agored i niwed, y rheini mae eu lleisiau'n cael eu hanwybyddu'n aml a'r rheini sydd mewn perygl o niwed.

Yn ogystal, mae'r Comisiynydd am ddefnyddio ei gwaith i dynnu sylw at y cyfraniad mae pobl hŷn yn ei wneud i'w cymunedau ac i gymdeithas, ac i helpu pobl i heneiddio'n dda.

Wrth drafod datblygiad ei rhaglen waith, dywedodd y Comisiynydd:

"Mae llawer o bobl hŷn yng Nghymru yn mwynhau ansawdd bywyd da ac rwyf wedi ymweld â llawer o brosiectau a gwasanaethau sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w bywydau.

"Fodd bynnag, mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod pob unigolyn hŷn yn gwybod beth yw eu hawliau a bod eu hawliau'n cael eu cadarnhau, eu bod yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth yn ei holl ffurfiau, yn cael eu cefnogi i heneiddio'n dda, a bod yr oedraniaeth a'r gwahaniaethu sy'n sail i lawer o'r materion maent yn eu hwynebu yn dod i ben.

"Gan hynny, bydd fy ngwaith fel Comisiynydd dros y tair blynedd nesaf yn cael ei gyflawni gan ystyried y blaenoriaethau allweddol hyn, ac rwyf eisiau i leisiau, profiadau a syniadau pobl hŷn, a'r rhai sy'n gweithio a gwirfoddoli gyda phobl hŷn, lywio fy ngwaith.

"Mae gan bobl hŷn lawer iawn o wybodaeth a phrofiad, ac rwy'n edrych ymlaen at glywed ganddynt, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio gyda hwy ac ar eu cyfer, am y newidiadau sydd eu hangen a sut gellir cyflawni'r rhain i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i fynd yn hŷn."

I ymateb i ymgynghoriad y Comisiynydd ar-lein, ewch i: http://bit.ly/OPCWCymraeg.

Os hoffech dderbyn copi caled o'r ddogfen ymgynghori, e-bostiwch gofyn@olderpeoplewales.com neu ffoniwch 03442 640 670

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw dydd Gwener 22 Chwefror 2019